

Cwblhau eich ffurflen gais

- *Darllenwch Proffil y Swydd yn drwyadl cyn llenwi'r Ffurflen Gais.*
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn glir am yr ystod o dasgau sydd eu hangen ar gyfer y swydd a'ch bod yn deall yr hyn y byddwch yn ei wneud os ydych yn llwyddiannus yn eich cais. Mae adran **atebolrwydd** Proffil y Swydd yn rhoi arwydd clir i chi o'r hyn y mae'r swydd yn ei olygu - peidiwch â digalonni os nad ydych wedi cwblhau unrhyw un neu bob un o'r tasgau hyn o'r blaen. Gall TGC gynnig rhywfaint o hyfforddiant 'mewn swydd' a chefnogaeth i chi, os oes gennych y sgiliau a'r galluoedd cywir.
- Wrth ddarllen Proffil y Swydd, dylech roi sylw arbennig i'r adran **CYMWYSTERAU / PROFYAD / GWYBODAETH / SGILIAU**. Mae'r adran hon yn disgrifio'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnoch er mwyn cael eich gwahodd i fynychu cyfweiliad. Mae'r adran wedi'i rhannu i'r wybodaeth, sgiliau a'r galluoedd y mae'n RHAID i chi eu cael a'r rhai rydym yn teimlo y byddai'n wych i chi eu cael hefyd.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu dangos sut rydych yn bodloni pob un o'r pwyntiau hanfodol a restrir - os nad oes gennych yr **holl** wybodaeth, sgiliau a galluoedd hanfodol a ddangosir yma, ni fyddwn yn gofyn i chi fynychu cyfweiliad.
- Ffordd gyflym o asesu hyn yw marcio eich hun yn erbyn pob un o'r meysydd hanfodol a rhoi tic wrth ymyl pob eitem wrth i chi fynd ymlaen. Os ydych yn teimlo nad oes gennych unrhyw un o'r meysydd hanfodol, siaradwch â chydweithiwr, eich rheolwr neu ffrind sy'n eich adnabod yn dda - efallai y byddant yn gallu eich atgoffa o rywbeth rydych wedi'i anghofio.
- Os ydych wedi bod allan o waith cyflogedig am gyfnod hir, erioed wedi cael gwaith neu'n ystyried newid gyrfa, meddyliwch am y sgiliau trosglwyddadwy sydd gennych. Efallai y bydd gennych gyfrifoldebau sylweddol yn y cartref, yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol, yn gwneud gwaith gwirfoddol - mae pob un o'r rhain yn werthfawr a gallant ddangos bod gennych y sgiliau rydym yn chwilio amdanynt.
- Os oes unrhyw bwyntiau ar y rhestr ddymunol rydych hefyd yn eu cyfarfod, rhowch fanylion y rhain i ni hefyd.
- Ysgrifennwch eich cais ar ffurf drafft er mwyn osgoi camgymeriadau, ailadrodd, ac ati
- Gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth a roddwch i ni wedi'i threfnu'n dda ac yn berthnasol.
- Rhowch enghreifftiau o'r gwaith rydych wedi bod yn rhan ohono ac ysgrifennwch amdano mewn ffordd gadarnhaol (e.e. roeddwn yn gyfrifol am, trefnais). Os gwelwch yn dda peidiwch ag ailadrodd yr hyn sy'n ymddangos ym Mhroffil y Swydd, rhowch enghreifftiau i ni o'r hyn rydych **chi** wedi'i wneud a sut y gwnaethoch **chi** hynny, peidiwch rhoi rhestr i ni o'r hyn y mae'r sefydliad rydych yn gweithio iddo wedi'i wneud, neu beth rydych wedi'i astudio.
- Y peth pwysicaf yw rhoi cymaint o wybodaeth berthnasol â phosib i ni - ni allwn ddyfalu neu wneud rhagdybiaethau, rydym ond yn barnu'r hyn rydych wedi'i ysgrifennu ar y ffurflen.
- Peidiwch ag anghofio cyflwyniad! Gwiriwch eich gramadeg a'ch sillafu.